# CROESO I BAWB

## Croeso i Bawb – Cipolwg

### Y Cyllid sydd ar gael

Mae grantiau o **£5,000 i £20,000** ar gael i ariannu hyd at 75% o gostau cyfalaf ar gyfer gwelliannau hygyrchedd.

**Pwy all wneud cais?**
Busnesau a mentrau cymdeithasol twristiaeth a lletygarwch yng Nghymru sydd:

- Yn cyflogi llai na 250 o bobl
- Wedi bod yn masnachu ers o leiaf flwyddyn
- Gyda'u gwefan eu hunain
- Yn ariannol hyfyw
- Wedi gwylio fideo esboniadol Croeso i Bawb.

### Ar gyfer beth y gellir defnyddio'r cyllid?

Gwelliannau cyfalaf sy'n gwneud eich busnes yn fwy hygyrch a chynhwysol i bobl anabl fel:

- toiledau ac ystafelloedd gwely hygyrch
- gwell llwybrau a llefydd i eistedd
- offer chwarae cynhwysol
- mannau synhwyraidd
- dolenni clyw
- mynediad heb risiau trwy rampiau a lifftiau

**Dyddiad cau**
Rhaid cyflwyno ceisiadau erbyn **21 Medi 2026 5pm**

**Dyddiad hwyraf y gallwch gwblhau'r prosiect**
Rhaid cwblhau prosiectau a chyflwno hawliad erbyn **12 Mawrth 2027**

**Mae Croeso Cymru yn falch o fod yn cydweithio gyda PIWS i gyflawni'r cynllun hwn. Mae PIWS yn Gwmni Buddiant Cymunedol gydag arbenigedd mewn hygyrchedd ar gyfer twristiaeth a lletygarwch.**

## Canllawiau

## 1. Cyflwyniad

Mae Croeso Cymru yn darparu cronfa grant cyfalaf ar raddfa fach yn 2026–27 i gefnogi busnesau twristiaeth a lletygarwch i wneud gwelliannau hygyrchedd. Bydd y gronfa yn helpu busnesau i gael gwared ar rwystrau i bobl anabl a chreu profiadau ymwelwyr mwy hygyrch, croesawgar a chynhwysol i bawb.

## 2. Pam buddsoddi mewn hygyrchedd?

Mae pobl anabl, a'r rhai sy'n teithio gyda nhw, yn cyfrif am oddeutu **chwarter yr holl ymwelwyr** â Chymru. Yn 2024, roedd hyn yn gyfanswm o **dros £1.1bn** o wariant.

| |
|---|
| <u>Teithiau dros nos i Gymru yn cynnwys ymwelydd anabl 2024 (ymwelwyr Prydain Fawr)</u><br>- 1.9 miliwn o deithiau (25% o'r holl deithiau dros nos)<br>- 6.3 miliwn o nosweithiau gwely (28% o'r holl nosweithiau gwely)<br>- Gwariant o £522m (23% o gyfanswm y gwariant dros nos)<br>- Arhosiad cyfartalog o 3.3 noson – hirach na chyfartaledd Cymru sef 2.9 noson<br><br><u>Ymweliadau Undydd â Chymru yn cynnwys ymwelydd anabl 2024 (ymwelwyr Prydain Fawr)</u><br>- 14.2 miliwn o ymweliadau undydd (27% o’r holl ymweliadau undydd)<br>- Gwariant o £585 miliwn (24% o gyfanswm gwariant ymweliadau undydd)<br><br>Ffynhonnell: GBTS |

Mae ymchwil yn awgrymu y gallai twristiaeth hygyrch dyfu hyd at 7% pe bai rhwystrau'n cael eu dileu, gan alluogi pobl anabl i ymweld â mwy o leoedd a mwynhau ystod ehangach o brofiadau twristiaeth.

Mae ymchwil hefyd yn dangos bod tua 83% o bobl anabl yn dweud eu bod wedi dewis peidio ag ymweld â busnes oherwydd ei fod yn ymddangos yn anghroesawgar neu'n anhygyrch. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd creu profiad ymwelwyr hygyrch a chynhwysol.

Wrth i'r boblogaeth heneiddio, disgwylir i nifer y bobl sydd â gofynion mynediad gynyddu. Mae hyn yn gyfle sylweddol i fusnesau fuddsoddi mewn gwella hygyrchedd a chroesawu cwsmeriaid mwy amrywiol.

Gallai buddsoddi mewn hygyrchedd helpu'ch busnes i:

- Ddenu cwsmeriaid mwy amrywiol a ffyddlon
- Cynyddu refeniw a deiliadaeth
- Gwella boddhad cwsmeriaid ac ail-ymweliadau
- Helpu i ddatblygu Cymru yn gyrchfan hygyrch o'r radd flaenaf.

Mae llawer o fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn cael eu defnyddio gan bobl leol yn ogystal â thwristiaid. Felly, bydd gwelliannau hygyrchedd yn dod â buddion i

ddinasyddion anabl Cymru (21% o boblogaeth Cymru) yn ogystal ag i ymwelwyr anabl.

## 3. Beth i'w wneud cyn gwneud cais?

Cyn i chi lenwi'r ffurflen gais, bydd angen i chi feddwl am beth mae hygyrchedd yn ei olygu i'ch busnes. Dyma rai pwyntiau allweddol yr hoffem i bob busnes eu cadw mewn golwg os yn gwneud cais o dan y cynllun hwn:

- **Nid** yw ymwelwyr yn anabl oherwydd unrhyw amhariadau, cyflyrau iechyd neu wahaniaethau a allai fod ganddynt. Maent yn anabl oherwydd y rhwystrau yn eich safle sy'n eu hatal rhag cael mynediad at eich cynhyrchion a'ch gwasanaethau a'u mwynhau (dyma'r Model Cymdeithasol o Anabledd).
- Bydd gwahanol ymwelwyr yn profi rhwystrau gwahanol. Nid yw'n ddigon meddwl, er enghraifft, am fynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn yn unig. Efallai y bydd gan eich ymwelwyr ystod eang o amhariadau, cyflyrau neu wahaniaethau, gan gynnwys rhai symudedd neu wahaniaethau synhwyraidd neu eu bod yn niwroamrywiol.
- Meddyliwch am daith y cwsmer – o archebu, cyrraedd, mynd i mewn i'ch eiddo, symud o gwmpas, defnyddio'ch cyfleusterau, cymryd rhan yn eich gweithgareddau, hyd nes iddynt adael.
- Mae eich cynnig hygyrchedd ond cystal â'i 'ddolen wannaf'. Er enghraifft, gall buddion ystafell wely hygyrch gael eu tanseilio os oes rhwystrau yn atal person anabl rhag cyrraedd yr ystafell.
- Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i chi wneud 'addasiadau rhesymol' ar gyfer ymwelwyr anabl. Mae Croeso i Bawb yn mynd y tu hwnt i hyn i ariannu gwelliannau mwy uchelgeisiol na fyddech fel arall yn gallu eu fforddio.

### ✓ Edrychwch ar ein Adnoddau cyn ymgeisio

Cyn gwneud cais am gyllid Croeso i Bawb, rydym yn argymell eich bod chi yn:

- Gwylio ein **fideo esboniadol** yma https://partners.piws.co.uk/ sy’n trafod hygyrchedd a Croeso i Bawb (os penderfynwch wneud cais **RHAID** i chi fod wedi gwylio hwn).
- Gofyn am adborth gan ymwelwyr i roi arweiniad clir, ymarferol i chi yn seiliedig ar eu profiadau real. Bydd hyn yn eich helpu i wella'ch dapariaeth yn hyderus heb ddibynnu ar ragdybiaethau. Rydym yn darparu **Holiadur Hygyrchedd Ymwelwyr** i chi.
- Cynnal **Archwiliad Hygyrchedd Busnes** o'ch eiddo, i wneud yn siŵr eich bod wedi ystyried taith gyfan y cwsmer ac wedi nodi'r gwelliannau gorau y gallwch eu gwneud.

## 4. Faint o gyllid sydd ar gael?

Mae Croeso i Bawb yn cynnig grantiau cyfalaf rhwng £5,000 a £20,000.

Gall y grant ariannu hyd at 75% o gostau cyfalaf ar welliannau hygyrchedd.

Er enghraifft, gallai cais fod am £15,000 o grant tuag at gostau o £20,000 (75%) neu am £20,000 o grant tuag at gostau o £50,000 (40%). £20,000 yw'r uchafswm grant y gellir ei roi.

Rhaid i weddill y costau gael eu hariannu gennych o'ch cronfeydd eich hun neu o ffynonellau cyllid preifat. Ni allwch ddefnyddio unrhyw fath arall o grant neu gyllid gan unrhyw sefydliad sector cyhoeddus fel cyllid cyfatebol.

Ni fydd ceisiadau sy'n gofyn am lai na £5,000 o grant yn cael eu hystyried. Gellir caniatau swm hyd at 10% yn llai os oes rhai mân gostau yn anghymwys.

Rhaid i brosiectau gael eu cwblhau, wario'n llawn a'u hawlio erbyn 12 Mawrth 2027.

## 5. Pwy sy'n gymwys i wneud cais i'r cynllun hwn?

Mae'r cynllun yn agored i fusnesau neu fentrau cymdeithasol twristiaeth a lletygarwch (gweler Tabl 1 yng nghefn y ddogfen hon am y rhestr lawn o godau SIC cymwys) yng Nghymru sydd:

- yn fentrau micro, bach neu ganolig (sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr)
- wedi bod yn masnachu am o leiaf flwyddyn fel cwmni cyfyngedig, partneriaeth, unig fasnachwr, elusen gofrestredig neu gwmni buddiannau cymunedol
- gyda'u gwefan eu hunain (Sylwer: nid yw cael eich rhestru gan asiantaeth deithio ar-lein e.e. booking.com/ Airbnb neu wefan gyfryngol neu debyg yn ddigonol)
- yn ariannol hyfyw
- wedi gweld fideo esboniadol Croeso i Bawb

Sylwch y gall elusennau wneud cais ond nid cyrff cyhoeddus (Awdurdodau Lleol, Cyrff a Noddir gan y Llywodraeth).

Nid ydym yn cefnogi'r defnydd annheg o gontractau oriau sero. Pan fo'r rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gorfodi ar neb, a dylid cynnig contract oriau gwarantedig i weithwyr. Ni ddylai busnesau nad ydynt yn gweithredu yn y modd hwn wneud cais i'r cynllun hwn.

### Gwybodaeth Ariannol

- Bydd ein diwydrwydd dyladwy yn cynnwys sicrhau bod eich busnes yn ariannol hyfyw. Byddwn yn archwilio eich cyfrifon i wirio a ydych chi'n masnachu'n broffidiol ac a oedd gennych fantolen bositif ar ddiwedd y flwyddyn ddiweddaraf. Os nad ydych yn y sefyllfa hon, bydd angen i chi ddarparu'r set ddiweddaraf o'ch cyfrifon

rheoli. Fodd bynnag, bydd cyfrifon sy'n dangos colledion neu fantolen negyddol fel arfer yn arwain at wrthod y cais.

- Bydd dyfarniadau grant yn cael eu gwneud o dan reolau rheoli cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA). Os ydych wedi derbyn mwy na £315,000 mewn grantiau o dan y llwybr hwn dros y ddwy flynedd ariannol hon a'r ddwy flynedd ariannol flaenorol, ni fyddwch yn gymwys i gael y cyllid hwn. Bydd angen i chi ddatgan unrhyw gymorth MFA rydych chi wedi'i dderbyn o'r blaen ar y ffurflen gais. Gallwch wirio a wnaed grantiau o dan MFA ar lythyrau cynnig blaenorol ar gyfer grantiau a ddyfarnwyd i chi o dan yr adran Rheoli Cymhorthdaliadau.

### Manylion Busnes

Wrth lenwi'r ffurflen gais, gwnewch yn siŵr eich bod yn cynnwys enw cofrestredig eich busnes. Os ydych chi'n bartneriaeth neu'n unig fasnachwr, dylech gynnwys enwau'r holl bartneriaid neu berchennog y busnes.

Dim ond un cais y gellir ei wneud fesul busnes. Os yw un perchennog neu gyfarwyddwr yn berchen ar fwy nag un busnes, yna derbynnir uchafswm o ddau gais.

**Bydd ceisiadau ond yn cael eu hasesu os ydynt yn bodloni'r holl ofynion cymhwysedd a diwydrwydd dyladwy a nodir uchod.**

## 6. Pryd i wneud cais?

Bydd Croeso i Bawb yn gwahodd ceisiadau mewn un galwad ac mae'r amserlen ar gyfer y broses fel a ganlyn:

| Dyddiad | Cyfnod y prosiect |
|---|---|
| 24 Gorffennaf | Lansio’r cynllun |
| 21 Medi | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
| Dechrau Tachwedd | Cyhoeddi penderfyniadau |

## 7. Pa wybodaeth fydd yn rhaid angen i mi ei darparu?

RHAID i chi ddarparu'r canlynol gyda'ch ffurflen gais

- Ffurflen Manylion Prosiect wedi'i chwblhau
- O leiaf 1 dyfynbris ar gyfer pob eitem o wariant yn y prosiect
- Eich cyfrifon diwedd blwyddyn diweddaraf - mantolen a chyfrif elw a cholled ar gyfer eich busnes.

## 8. Pa gostau sy'n gymwys ac yn anghymwys?

### Costau Cymwys

Mae hwn yn gynllun cyfalaf. At ddibenion y cynllun hwn, mae ased cyfalaf yn eitem sy'n darparu budd parhaol a fydd yn cael ei ddefnyddio am o leiaf dair blynedd. Gall eitemau symudol ac eitemau gwerth isel fod yn gymwys. Mae enghreifftiau o gostau cyfalaf cymwys yn cynnwys:

- Gwaith adeiladu, gosod neu adnewyddu
- Gwelliannau hygyrchedd parhaol i adeiladau neu gyfleusterau ymwelwyr.
- Offer a thechnolegau cynorthwyol a fydd yn para am fwy na thair blynedd
- Ffioedd proffesiynol sy'n uniongyrchol gysylltiedig â chyflawni prosiect cyfalaf cymwys (er enghraifft, ffioedd pensaernïol neu gynllunio lle mae'r rhain yn rhan o gost y prosiect cyfalaf).

### Costau Anghymwys

- Costau sy'n cael eu hystyried yn addasiadau rhesymol (gweler isod) fel rampiau symudol, mân addasiadau i drefn ystafell, arwyddion sylfaenol a chymhorthion cyfathrebu
- Costau refeniw, megis marchnata, gorbenion, amser staff cyflogedig, hyfforddiant, cynnal a chadw ac atgyweirio, ffioedd tanysgrifio
- Stociau neu eitemau traul (h.y. eitemau na fydd yn para am fwy na 3 blynedd er enghraifft, plygiau clust, bwydlenni papur neu daflenni)
- Unrhyw fesurau lle mae ymrwymiad ariannol wedi'i wneud cyn cynnig grant
- TAW adenilladwy
- Unrhyw fesurau a fydd yn arwain at ddiswyddiadau.

Rydym yn eich annog i feddwl yn greadigol am brosiectau a fyddai'n dileu rhwystrau ac yn creu profiad ymwelwyr mwy cynhwysol. Dyma rai enghreifftiau o welliannau posibl y gallai'r gronfa eu cefnogi:

- Ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi hygyrch
- Lifftiau platfform neu risiau / Gwell mynediad di-risiau
- Drysau awtomatig neu ddrysau mwy llydan
- Derbynfeydd a mannau gwasanaeth hygyrch
- Cyfleusterau cymorth clyw gwell
- Toiledau Anabl neu Changing Places a chyfleusterau cysylltiedig
- Seddi awyr agored, mannau gwylio a llwybrau ymwelwyr hygyrch

- Gwell cyfeirnodi drwy arwyddion clir, hygyrch, gan gynnwys arwyddion cyffyrddadwy ac amryliw
- Mannau tawel neu synhwyraidd i gefnogi ymwelwyr sy'n elwa o amgylchedd tawelach
- Mannau picnic, pwyntiau gwybodaeth i ymwelwyr a nodweddion dehongli hygyrch
- Addasiadau i fannau hamdden, gweithgareddau neu brofiad ymwelwyr i alluogi mwy o bobl i gymryd rhan a mwynhau'r profiad
- Parcio hygyrch a gwella llwybrau rhwng meysydd parcio a chyfleusterau ymwelwyr
- Gwelliannau ffeisegol sy'n cefnogi ymwelwyr sydd â gofynion mynediad gweledol, clyw, symudedd neu niwroamrywiol
- Cerbydau symudedd neu gadeiriau olwyn at ddefnydd cwsmeriaid.

### Beth yw Addasiadau Rhesymol?

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i fusnesau wneud addasiadau rhesymol i bobl anabl gael mynediad at eu gwasanaethau.

O ganlyniad:

- Ni ellir defnyddio cyllid cyhoeddus i gefnogi mesurau y mae'n rhaid i fusnes eu cyflawni o dan y gyfraith.

Mae "addasiad rhesymol" yn ddarostyngedig i'r cyd-destun ac yn dibynnu ar:

- Faint ac adnoddau'r busnes
- Ymarferoldeb yr ymyrraeth
- Cost o'i gymharu â throsiant
- Amlder yr angen
- Ystyriaethau iechyd a diogelwch.

Bydd angen i brosiectau ddangos bod y gweithgaredd arfaethedig yn mynd y tu hwnt i'r lefel sylfaenol o hygyrchedd y byddai disgwyl i’r busnes ei ddarparu o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

## 9. Beth arall sydd angen i mi ei ystyried?

### Gwerth am Arian a Dyfynbrisiau

Disgwylir i chi sicrhau'r gwerth gorau trwy ddefnyddio eich arferion caffael masnachol arferol fel cael dyfynbrisiau cystadleuol gan gyflenwyr.

Rhaid i chi gael dyfynbris ar gyfer pob eitem a dylid anfon y rhain gyda'ch cais i ddangos bod eich costau disgwyliedig yn rhai rhesymol.

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio cwmni cysylltiedig i ymgymryd ag unrhyw agwedd o'r gwaith, rhaid i chi ddatgan hyn i ni.  Yn yr achos hwn, bydd gofyn i chi gadarnhau bod cost y gwaith a wneir gan y cwmni cysylltiedig yn eithrio unrhyw elfen elw ar gyfer costau deunydd neu daliadau llafur.

## Caniatâd

Chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod pob caniatâd a chymeradwyaeth angenrheidiol wedi cael ei derbyn cyn dechrau ar unrhyw waith.

Gellir gwneud llawer o welliannau hygyrchedd heb ganiatâd cynllunio, yn enwedig lle mae newidiadau tu fewn ac nad ydynt yn newid ymddangosiad allanol adeilad yn sylweddol. Fodd bynnag, efallai y bydd angen caniatâd cynllunio neu gymeradwyaeth draenio trefol gynaliadwy (SUDS) pan fo cynigion yn cynnwys:

- Newidiadau allanol i adeilad
- Adeiladu rampiau, llwyfannau neu lifftiau parhaol ar y tu allan i eiddo
- Estyniadau neu strwythurau newydd
- Newidiadau i fynedfeydd, drysau, ffenestri neu ffasadau
- Newidiadau i feysydd parcio, llwybrau mynediad cerbydau neu gyfleusterau ymwelwyr allanol
- Arwyddion newydd, goleuadau neu seilwaith canfod ffordd mewn rhai amgylchiadau.

Bydd y gofynion yn amrywio yn ôl natur a lleoliad yr eiddo. Os nad ydych yn siŵr a oes angen caniatâd cynllunio ar y prosiect, cysylltwch ag Adran Gynllunio eich Awdurdod Lleol - mae'r rhan fwyaf o Awdurdodau Lleol yn cynnig Gwasanaeth Cyn-Ymgeisio ar-lein sy'n gallu cadarnhau a oes angen caniatâd.

Os bydd angen caniatâd gynllunio neu gymeradwyaeth draenio trefol gynaliadwy ar eich prosiect (SUDS), nid oes angen i'r rhain fod yn eu lle ar adeg y cais, ond dylech sicrhau eich bod yn caniatáu digon o amser i dderbyn y caniatâd ac y bydd y prosiect yn cael ei orffen erbyn 12 Mawrth 2027.

## Rheoliadau Adeiladu

Bydd llawer o welliannau hygyrchedd ffisegol yn gofyn am gydymffurfio â Rheoliadau Adeiladu. Dylech gael cyngor gan Wasanaeth Rheoli Adeiladu eich Awdurdod Lleol lle bo hynny'n briodol a sicrhau bod yr holl waith yn cydymffurfio â'r gofynion statudol perthnasol. Y prosiectau y gallai fod angen iddynt gael eu cymweradwyo:

- Toiledau hygyrch a chyfleusterau ymolchi
- Cyfleusterau Changing Places
- Newidiadau strwythurol
- Lifftiau neu lifftiau platfform newydd
- Newidiadau i fynedfeydd a llwybrau mewnol, drysau awtomatig.
- Newid trefn ystafelloedd, ystafelloedd gwely neu fannau cyhoeddus

## 10. Sut caiff fy nghais ei sgorio?

Bydd ceisiadau sy'n bodloni'r gofynion cymhwysedd yn cael eu sgorio yn erbyn y meini prawf gwerthuso. Os byddwn yn derbyn gormod o geisiadau, bydd ceisiadau yn cael eu gosod yn ôl cyfanswm eu sgôr, a bydd cyllid yn cael ei gynnig i'r prosiectau sydd â'r sgôr uchaf yn gyntaf.

Bydd y sgoriau yn amrywio o 0 – nid yw'n bodloni'r gofyniad, 1 – yn bodloni isafswm y gofyniad, 3 Da, 5 Ardderchog.  Rhaid i chi gyrraedd sgôr o 1 yn erbyn pob maen prawf arfarnu.

| Maen Prawf | Rhesymeg | |
|---|---|---|
| Creu profiad hygyrch o'r dechrau i'r diwedd | Rydym eisiau gweld sut mae eich prosiect yn gwella hygyrchedd i bobl anabl trwy gydol eu taith drwy eich busnes. Gallai hyn gynnwys cyrraedd a dod i mewn i'ch eiddo, y croeso a darparu gwybodaeth, canfod ffordd, cael mynediad i gyfleusterau a gweithgareddau a phrofiad cyffredinol ymwelwyr gan gynnwys llety, bwyd a diod. Mae prosiectau sy'n ystyried taith gyfan y cwsmer yn debygol o sgorio'n uwch. | X10 |
| Adlewyrchu gwir anghenion pobl anabl | Esboniwch y dystiolaeth rydych chi wedi'i defnyddio i ddatblygu eich cais a sut y gwyddoch y bydd y buddsoddiad yn gwneud gwahaniaeth go iawn. Cyfeiriwch at unrhyw adborth gan gwsmeriaid anabl, adolygiadau, arsylwadau staff neu archwiliad hygyrchedd sydd wedi llywio eich cynigion. Po gryfach yw'r dystiolaeth bod eich prosiect yn ymateb i anghenion cwsmeriaid go iawn, yr uchaf y mae'n debygol o sgorio. | X5 |
| Cwmpasu ystod o amhariadau a gwahaniaethau | Esboniwch pa rwystrau mynediad y bydd eich prosiect yn mynd i'r afael â nhw. Meddyliwch am ystod o amhariadau ac anghenion mynediad, gan gynnwys symudedd, golwg, clyw, niwroamrywiaeth, anableddau dysgu, iechyd meddwl, amhariadau nad ydynt yn weladwy, teuluoedd a gofalwyr, pobl hŷn, lle bo'n berthnasol i'ch busnes. Mae prosiectau sydd o fudd i ystod ehangach o ymwelwyr yn debygol o sgorio'n uwch. | X5 |
| Gwella proffidoldeb y busnes | Esboniwch sut y gallai'r prosiect eich helpu i ddenu cwsmeriaid newydd, annog pobl i ail-ymweld neu gynyddu boddhad neu wariant ymhlith eich cwsmeriad. Esboniwch sut rydych chi'n bwriadu hyrwyddo neu farchnata'r gwelliannau a sut y disgwylir i'r buddsoddiad gynyddu proffidioldeb eich busnes yn y dyfodol. | X5 |

| | | |
|---|---|---|
| Bod yn gyflawnadwy o fewn yr amserlen | Darparwch gynllun prosiect syml sy'n dangos y camau allweddol sydd eu hangen i gwblhau'r prosiect erbyn 12 Mawrth 2027. Nodwch unrhyw risgiau a allai oedi’r gwaith, fel sicrhau caniatâd cynllunio ac argaeledd contractwyr ac esboniwch sut y byddwch yn eu rheoli. | X10 |

## 11. Pryd gâf i fy hysbysu o'r penderfyniad?

Byddwch yn cael eich hysbysu o’r penderfyniad trwy e-bost erbyn dechrau mis Tachwedd.

Os byddwch yn llwyddiannus, bydd Llythyr Cynnig Grant yn cael ei anfon atoch chi yn amlinellu telerau ac amodau'r grant. Bydd yn ofynnol i chi ei lofnodi a'i ddychwelyd atom.

Ni allwch 'ddechrau' y prosiect, nag ymrwymo i ymrwymiadau ariannol ffurfiol, cyn i chi dderbyn eich penderfyniad gan y bydd hyn yn diddymu'r cais.

Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau sy’n ymwneud â pharatoi’r cais. Gan fod hwn yn gynllun yn ôl disgresiwn, nid oes proses apelio ar gyfer y cynllun hwn.

## 12. Sut ydw i'n hawlio'r cyllid?

Bydd angen i chi hawlio’r cyllid ar ôl i'ch prosiect gael ei gwblhau. Byddwch yn gallu hawlio hyd at 75% o'ch gwariant. Bydd hawliadau'n cael eu talu yn seiliedig ar unrhyw gostau cymwys rydych chi wedi'u cyflwyno ac eisoes wedi talu amdanynt.

Bydd y taliad grant yn cael ei wneud mewn un taliad.

Bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth ganlynol:

- Ffurflen hawlio
- Anfonebau a phrawf eich bod wedi talu am yr holl wariant a hawlir. Sylwer: ni dderbynnir symiau mawr a dalwyd amdanynt mewn arian parod.
- Tystiolaeth ffotograffig wedi'i ddyddio o'r mesurau hygyrchedd wedi'u cwblhau

Rhaid i'r mesurau hygyrchedd fod yn eu lle ar am o leiaf 3 blynedd, fel arall byddwn yn gallu hawlio’r grant yn ôl.

Rhaid cyflwyno'ch hawliad erbyn 12 Mawrth 2027 fan bellaf.

## 13. Beth yw Amodau'r Grant?

Cyn i ni dalu'r grant, bydd gofyn i chi hefyd ddarparu'r canlynol:

### Darparu gwybodaeth

Bydd gofyn i chi ddarparu canllaw/datganiad hygyrchedd. Bydd angen i'r canllaw/ datganiad hygyrchedd nodi’r newidiadau a ariannwyd gan y grant yn ogystal â darparu gwybodaeth ymarferol sy'n caniatáu i ymwelwyr benderfynu a fydd y lleoliad yn diwallu eu hanghenion cyn iddynt ymweld.

Byddwn hefyd yn gofyn am dystiolaeth sgrin lun bod eich gwefan wedi'i diweddaru i ddarparu gwybodaeth hygyrchedd i'ch ymwelwyr yn Gymraeg a Saesneg.

Rydym hefyd yn ystyried darparu cymorth pellach i wella hygyrchedd gwefannau yn y dyfodol.

### Marchnata ac Ymgysylltu Croeso Cymru

Bydd gofyn i chi ddarparu neu ddiweddaru gwybodaeth am eich busnes ar gronfa ddata cynnyrch Croeso Cymru, os yw hyn yn berthnasol i'ch busnes. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried cynnwys eich busnes yn ein gweithgarwch marchnata ac ymgysylltu yn y dyfodol.

Bydd gofyn i chi hefyd gydnabod y cyllid grant ar eich cyhoeddusrwydd eich hun.

### Graddio ac Achredu

Os ydych chi'n fusnes llety (gwesty, llety â gwasanaeth, hunanarlwyo, parc gwyliau, gwersyll, ac ati), yn atyniad i ymwelwyr, neu'n ddarparwr gweithgaredd, ac nad ydych eisoes yn cymryd rhan mewn cynllun sicrhau ansawdd perthnasol (h.y. Graddio Seren, VAQAS neu gynllun achredu gweithgareddau cymeradwy), bydd gofyn i chi ddarparu tystiolaeth eich bod wedi gwneud cais i ymuno â'r cynllun graddio neu achredu priodol.

### Yr Iaith Gymraeg

- Bydd gofyn i chi ddarparu Datganiad Iaith Gymraeg yn esbonio sut rydych chi'n bwriadu hyrwyddo'r Gymraeg yn eich busnes.
- Bydd gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ddwyieithog am hygyrchedd ar eich gwefan a
- Sicrhau bod unrhyw wybodaeth print, arwyddion newydd ac ati yn eich eiddo am y mesurau hygyrchedd a gefnogir gan y cynllun hwn yn ddwyieithog.

### Gwerthuso

Bydd gofyn i chi gymryd rhan mewn ymchwil ddilynol. Bydd yr ymchwil hon yn ceisio deall effaith canfyddedig y mesurau hygyrchedd ar brofiad ymwelwyr anabl ac ar berfformiad busnes. Rydym yn disgwyl cyhoeddi holiadur gwerthuso yn 2027-28.

## 14. Preifatrwydd

**Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR)**

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol rydych wedi'i ddarparu mewn perthynas â grant Croeso i Bawb. Bydd y wybodaeth a ddarperir gennych yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru a PIWS i brosesu'r cais hwn ac i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y cynllun. Gall methu â darparu'r holl wybodaeth ofynnol olygu na fyddwn yn gallu cynnal asesiad llawn o'r cais. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut rydym yn casglu, defnyddio a phrosesu eich data personol yn deg, yn gyfreithlon ac yn dryloyw.

Bydd data a ddarperir i PIWS at ddibenion cyrchu cynnwys hyfforddiant yn cael ei drin yn unol â'u hysbysiad preifatrwydd nhw.

## 15.Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o dderbynwyr grant

Mae Llywodraeth Cymru yn dymuno gweithio gyda sefydliadau sy'n falch o'u henw da, yr hyn maen nhw'n ei gyflawni, a'u hymddygiad. Mae'r canllawiau atodedig wedi'u cynllunio i dynnu sylw ac egluro'r mathau o ymddygiad, diwylliannau a gwerthoedd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld yn cael eu gwireddu gan dderbynwyr grantiau:

*Welsh Government expectations of grant recipients [HTML] | GOV.WALES*

## 16. Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y cynllun hwn, anfonwch e-bost atom ar: CroesoiBawb@llyw.cymru

**Tabl 1. Codau SIC Busnesau Cymwys**

Os yw'ch busnes twristiaeth neu letygarwch yn gweddu i un o'r categorïau a restrir isod, gallwch wneud cais o dan y cynllun - ar yr amod eich bod hefyd yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd eraill.

| Gweithgaredd Busnes | Cod SIC |
|---|---|
| Gwestai a llety tebyg | 55100 |
| Canolfannau gwyliau a phentrefi | 55201 |
| Hosteli ieuenctid | 55202 |
| Llety gwyliau eraill a llety eraill ar y cyd | 55209 |
| Parciau cerbydau hamdden, parciau trelars a meysydd gwersylla | 55300 |
| Llety arall | 55900 |
| Bwytai trwyddedig | 56101 |
| Bwytai a chaffis heb drwydded | 56102 |
| Tafarndai a bariau | 56302 |
| Gweithgareddau parciau adloniant a pharciau thema | 93210 |
| Gweithgareddau hamdden eraill (gan gynnwys gweithgareddau awyr agored) | 93290 |
| Cludiant teithwyr dŵr ar y môr a’r arfordir | 50100 |
| Cludiant teithwyr dŵr mewndirol | 50300 |
| Cyfleusterau celfyddydol | 90040 |
| Gweithgareddau Amgueddfeydd | 91020 |
| Gweithredu safleoedd ac adeiladau hanesyddol ac atyniadau tebyg i ymwelwyr | 91030 |
| Gerddi botanegol a sŵolegol a gweithgareddau gwarchodfeydd natur | 91040 |